*Ysgol Plas Coch*
*Ffordd Stansty*
*Wrecsam*
*LL11 2BU*
*Ffôn: 01978 311198*
*Ffacs: 01978 311198*

Ysgol Plas Coch
Stansty Road
Wrexham
LL11 2BU
Tel: 01978 311198
Fax: 01978 311198

# YSGOL PLAS COCH

**Mr Osian Jones BA**
***Pennaeth* Head Teacher**

*E-bost*/E-mail: **mailbox@plascochpri.wrexham.sch.uk**
*Gwefan/*Website: https://ysgolplascoch.cymru

Annwyl rieni/gwarchodwyr 01/07/24

Rydym yn falch i gyhoeddi bydd cyfle i holl ddisgyblion blwyddyn 5 (blwyddyn 4 nawr) fynychu cwrs yng Nglan-llyn o ddydd Llun hyd ddydd Mercher, **Hydref 14eg - 16eg**. Mae'r cwrs yn gyfle i'r disgyblion ddod i adnabod disgyblion o ysgolion eraill, fel Bro Alun, cyn mynychu ysgol uwchradd.

Cost yr ymweliad fydd **£200 (Glan-llyn £186 a bws £14).**

Yn ystod y cwrs caiff y disgyblion gyfle i gymryd rhan mewn nifer o weithgareddau amrywiol megis nofio, llafn rolio, bowlio 10, mynd mewn cwch ar Lyn Tegid, gemau chwaraeon, cwrs antur yn y coed, cwrs rhaffau a mwy. Mae mwy o fanylion ar gael ar safle Glan-llyn – http://urdd.org/glanllyn/index.php.

Os oes gennych ddiddordeb i'ch plentyn gael manteisio ar y cyfle arbennig hwn a fyddech yn cwblhau'r atodiad isod a'i ddychwelyd i'r ysgol a **thalu blaendal o £25 ar Parentpay erbyn 16/7/24.** Bydd opsiwn i wneud taliadau pob yn dipyn ar Parentpay, gyda'r cwbl wedi ei dalu erbyn 04/10/24 os gwelwch yn dda.

Mae'n bosib eich bod yn gymwys i gael rhyddhad rhag talu am gost y llety a'r bwyd sef £186 (nid y bws) os ydych yn derbyn un o'r canlynol:-

Credyd Cynhwysol
Cymhorthdal incwm
Lwfans ceisio gwaith (yn seiliedig ar incwm)
Lwfans mewnfudo a cheiswyr lloches
Credyd pensiwn
Credyd treth plant gydag incwm llai na £18,725 ond nid os yw'r rhiant/gwarcheidwad hefyd yn derbyn Credyd Treth Gwaith

Os ydych yn meddwl eich bod yn gymwys i un o'r uchod a fyddech cystal â gadael i ni wybod a darparu llungopi (gellir gwneud copi yn yr ysgol) o ddogfen sy'n dystiolaeth i ni ei gyrru i'r sir. Bydd angen i chi yrru'r dystiolaeth atom erbyn 13/09/24 er mwyn rhoi amser i'r sir ddelio efo'ch cais.

Os oes gennych unrhyw gwestiwn am y daith, mae croeso i chi gysylltu efo'r ysgol.

Yn gywir,

Osian Jones
Pennaeth

✂.................................................................................................................................

**CWRS GLAN-LLYN**

Enw: ________________________________ Dosbarth: ________________________

Bydd fy mhlentyn yn mynd / ddim yn mynd i Lan-llyn

Arwyddwyd: ________________________________

*Cyfeirier pob gohebiaeth at y Pennaeth*
Please address all communications to the Headteacher